24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd D T Davies
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant CF72 8LX

**Cyfeirnod:** 1059A2019-20

**Dyddiad cyhoeddi:** 26 Chwefror 2019

Annwyl Gynghorydd Davies

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; ac
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;

- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; ac
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/Pwyllgor Cynghori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Cyhoeddais y canlynol ar 25 Medi 2018:

- barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2017-18 Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân; a
- barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2017-18 yr Awdurdod.

Nodir fy adroddiad archwilio ar dudalennau 26 i 28 o'r Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd[1]. Cyn i mi ardystio datganiadau cyfrifyddu 2017-18, ar 24 Medi 2018 rhoddwyd gwybod i aelodau'r Awdurdod am y materion allweddol a ddeilliodd o'm harchwiliad drwy fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol[2]. Yn ogystal â chyflwyno adroddiad ar fy mwriad i gyhoeddi barn ddiamod a nodi'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, cyflwynais adroddiad hefyd ar un mater pwysig, sy'n ymwneud ag anghyfreithlondeb posibl taliadau a wnaed o dan gynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân a oedd yn fy atal rhag cau'r archwiliad.

Ar 11 Chwefror 2019 cymeradwyodd Aelodau'r Awdurdod yr argymhellion i ddatrys mater cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân ac rwyf bellach wedi derbyn y ddogfennaeth yr oedd ei hangen. Rwy'n fodlon ar y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Awdurdod ac ar 26 Chwefror ailgyhoeddais fy marn archwilio gan gynnwys tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o ddatganiadau cyfrifyddu 2017-18 wedi'i gwblhau.

## Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau cyfrifyddu ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ers i mi gyhoeddi Llythyr Archwilio Blynyddol 2016-17 ym mis Tachwedd 2017, o dan y Mesur rwyf wedi cyhoeddi fy Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18 [3]

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngwaith rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ar gyfer 2017-18.

---

[1] https://www.decymru-tan.gov.uk/app/uploads/2018/04/Statement-of-Accounts-2017-18-FINAL-welsh.pdf

[2] https://www.decymru-tan.gov.uk/app/uploads//2018/04/SWFRA-Audit-of-Financial-Statements-Report-Final.pdf

[3] http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/swfra_air_cym_0.pdf

Y ffi archwilio ariannol derfynol ar gyfer 2017-18 yw £63,201, sef £6,179 yn fwy na'r amcangyfrif a nodwyd gennyf yng Nghynllun Archwilio 2018. Mae'r ffi derfynol yn cynnwys ffioedd cyfreithiol o £3,050[4], sef trydedd gyfran yr Awdurdod (caiff y cyfrannau eraill eu bilio i Awdurdod Tân Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru) o'r costau cyfreithiol allanol yr aethom iddynt wrth gael cyngor cyfreithiol ar y materion sy'n ymwneud â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

Yn gywir



Mark Jones
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân
Sally Chapman, Dirprwy Brif Swyddog
Chris Barton, Trysorydd a Swyddog Adran 151

[4] Rhaid talu TAW ar y ffioedd cyfreithiol, sydd wedi'i chynnwys yn y £3,050.